

Tynnu rhafnwydden y Môr ymledol i roi hwb i fioamrywiaeth y twyni ym Mhen-bre

Ar 04-06 Chwefror 2021, mae Cyfoeth Naturiol Cymru, fel rhan o brosiect Twyni ar Symud, yn gwneud gwaith i dynnu rhywogaeth ymledol yn nhwyni Pen-bre.

Ym mis Ionawr 2021, bu contractwyr yn gweithio ar y safle i dorri a chodi rhafnwydden y môr. Rhywogaeth ymledol yw hon a gyflwynwyd yn yr 1950au, sydd bellach yn gorchuddio arwynebedd o 37ha – neu 37 o gaeau rygbi! Mae'r rhywogaeth hon yn arbennig o dda am dyfu nôl, ac un ffordd effeithiol o'i hatal rhag dod yn ôl yw ei chodi ac yna'i llosgi. O ganlyniad, caiff nifer o danau dan reolaeth eu cynnau o rafnwydden y môr ym Mhen-bre, a fydd yn dod i ben ddydd Gwener 5^{ed} Chwefror. Gofynnwn yn garedig i chi gadw eich cŵn ar dennyn, cadw golwg am arwyddion, a chadw draw o'r gwaith.

Planhigion neu anifeiliaid yw rhywogaethau ymledol sy'n gallu llethu agweddau pwysig o unrhyw gynefin. Mae rhywogaethau ymledol ymysg y pum prif ffactor sy'n achosi'r cwmp mewn bioamrywiaeth ar draws y byd. Mae rhafnwydden y môr, *Hippophae rhamnoides*, yn rhywogaeth ymledol ym Mhen-bre. Mae'n tyfu mewn clystyrau mawr trwchus, ac am fod y gwreiddiau'n tyfu'n rhwydd mewn tywod rhydd, mae wedi ymledu'n gyflym i gynefin twyni agored.

Mae ardaloedd mawr o rafnwydden y môr yn broblem i fywyd gwyllt. Mae'n dominyddu'r twyni tywod, ac o'r herwydd mae llai o le i flodau gwyllt prin a brodorol, gan gynnwys sawl rhywogaeth o degeirian, a chreaduriaid arbenigol eraill y twyni tywod, gan gynnwys ymlusgiaid a phryfed sy'n tyrchu, sy'n dibynnu ar dywod noeth a llystyfiant byr. Mae dau brosiect cadwraeth, Twyni ar Symud a Twyni Byw, yn gweithio yn Nhwyni Pen-bre i adfer y cynefinoedd hyn. **Mae'r gwaith hwn yn hanfodol er mwyn adfer systemau twyni tywod sydd mewn iechyd gwael, a chefnogi bioamrywiaeth yr arfordir, yn arbennig yn wyneb heriau'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol.**

Meddai David Kilner, Swyddog Twyni ar Symud, 'Mae'r twyni sy'n rhoi cymaint o bleser a mwynhad i ni heddiw wedi haneru yn eu maint o gymharu â'r hyn yr oedden nhw hanner can mlynedd yn ôl. Does dim syndod bod bywyd gwyllt yng Nghymru yn dilyn trywydd tebyg – mae 60% o fywyd gwyllt Cymru yn dirywio.'

'Mae Bae Caerfyrddin ei hun yn gartref i 250 o rywogaethau o blanhigion, un rhan o bump o holl rywogaethau planhigion Cymru, a channoedd o rywogaethau o bryfed. Bydd y gwaith hanfodol hwn yn helpu i greu hafan ddiogel i'n bywyd gwyllt. Maen nhw'n peillio'n bwyd, yn

Datganiad i'r Cyfryngau:
03/02/21

 **Cyfoeth Naturiol Cymru**
Natural Resources Wales

**DYNAMIC**
DUNESCAPES

anadlu i ni, ac yn ein cysylltu ni. Mae rhoi'r twyni ar symud yn creu cynefinoedd mwy iach sy'n rheoli eu hunain, ac a fydd yn ffynnu.'

Mae'r frigâd dân, y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r perchnogion tir a'r awdurdodau cyfagos wedi cael gwybod, a bydd y tanau'n cael eu creu mewn ffordd reoledig gan ddefnyddio cyfarpar diogelwch, a bydd tanciau dŵr a swyddogion arolygu peiriannau yn bresennol yr holl amser.

Mae Twyni ar Symud yn brosiect partneriaeth sy'n gweithio ar draws 34 o safleoedd yng Nghymru a Lloegr. Nod y prosiect yw gwneud gwaith adfer a chadwraeth dros 7,000 hectar, gan gefnogi 33 o rywogaethau pwysig y twyni tywod. Ariennir y prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Rhaglen LIFE yr UE. Partneriaid y prosiect yw Natural England, Plantlife, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaethau Natur.

Dysgwch fwy am ein gwaith ym Mhen-bre:

<https://dynamicdunesCAPES.co.uk/project/sir-gaerfyrddin/?lang=cy>

A'n gwaith yng Nghymru @duneswales ar Twitter @dynamicduneswales ar Facebook

– diwedd –

Delweddau (Untro)



Teitl: Gwaith codi rhafnwydden y môr ym Mhen-bre, fel rhan o brosiect Twyni ar Symud.

Cydnabyddiaeth: Twyni ar Symud

Datganiad i'r Cyfryngau:
03/02/21



Teitl: Codi rhafnwydden y môr fel rhan o brosiect Twyni ar Symud. **Cydnabyddiaeth:** Twyni ar Symud



Teitl: Robo-mulcher – peiriant tomwelltio wedi'i reoli o bell, yn cael ei ddefnyddio i glirio rhafnwydden y môr ifanc fel rhan o brosiect Twyni ar Symud. **Cydnabyddiaeth:** Twyni ar Symud

Cyswllt:

Datganiad i'r Cyfryngau:
03/02/21



David Kilner, Swyddog Ymgysylltu Cymru – Twyni ar Symud, Plantlife

David.kilner@plantlife.org.uk

Emma Brisdion, Swyddog Cyfathrebu – Twyni ar Symud, Natural England

Emma.brisdion@naturalengland.org.uk, neu dynamicdunesCAPES@naturalengland.org.uk.

Dysgwch fwy am Twyni ar Symud: <https://dynamicdunesCAPES.co.uk> ac am Twyni Byw: <https://naturalresources.wales/about-us/our-projects/nature-projects/sands-of-life/?lang=cy>

Nodiadau i olygyddion

Am Twyni ar Symud

Mae [Dynamic DunesCAPES](#) yn brosiect partneriaeth i adfer twyni tywod ar draws Cymru a Lloegr er lles bywyd gwyllt, pobl a chymunedau. Ariennir y prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Rhaglen LIFE yr UE. Partneriaid y prosiect yw Natural England, Plantlife, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cornwall Wildlife Trust, Lincolnshire Wildlife Trust a Cumbria Wildlife Trust.

Mae twyni arfordirol Cymru a Lloegr yn gynefinoedd o bwys rhyngwladol i fywyd gwyllt, ac maent wedi'u rhestru fel un o'r amgylcheddau sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf yn Ewrop o ran colli bioamrywiaeth. Mae'r twyni hyn yn lloches i rywogaethau prin fel tegeirian y fign galchog, llyffant y twyni a madfall y tywod. Ond mae'r negeseuon o ran rheolaeth twyni a gaed dros nifer o ddegawdau a oedd yn cefnogi sefydlogi twyni wedi golygu bod y twyni wedi'u gorchuddio â gormodedd o lystyfiant. Bellach rydym yn sylweddoli bod hyn yn peri risg i fywyd gwyllt gwarchoddedig. Mae angen i dwyni tywod iach fod yn rhydd i symud ac i fod yn ddynamig. Mae ar lawer o rywogaethau angen ardaloedd o dywod agored i ffynnu, felly bydd y prosiect hwn yn dod â bywyd yn ôl i'r twyni drwy greu ardaloedd o dywod agored. Mae ar greaduriaid arbenigol eraill angen i ni wella llaciau'r twyni, am fod y pantiau hyn y tu ôl i'r twyni, sy'n aml wedi'u llenwi â dŵr, yn gynefinoedd pwysig i amffibiaid ac adar. Yn ogystal, bydd rhywogaethau ymledol yn cael eu tynnu o'r twyni a glaswelltiroedd y twyni, er mwyn gwella'r amodau i blanhigion brodorol prin allu ffynnu. Byddwn yn gweithio gydag arbenigwyr medrus lleol a chenedlaethol, ac yn cynnwys ysgolion a grwpiau lleol, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr o bob oedran a gallu i helpu i adfywio'n twyni.

Dilynwch ni

@dynamicdunes ar Twitter, Facebook ac Instagram.